**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser**

**Cofnodion - Dydd Mawrth 4 Rhagfyr, 12.30-13.30, Ystafell Briffio'r Cyfryngau, y Senedd**

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Cadeirydd: Julie Morgan AC

Rhestr o'r rhai sy'n bresennol:

> Julie Morgan AC, Mike Hedges AC, Caroline Jones AC, David Rees AC
>
> Andy Glyde, Cancer Research UK (ysgrifenyddiaeth)
>
> Stephen Griffiths, AGIC; Pushpinder Mangat, AGIC (siaradwyr)
>
> Wayne Griffiths; Martin Fidler Jones, Tenovus; Nick Phillips, Ymgyrch Canser y Coluddyn Cymru; Greg Pycroft, Macmillan Cymru; Andrew Owen, Tenovus; Jayne Caparros, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru; Sian Whelan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; Mandy Edwards, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan; Andrew Seggie, Prostate Cancer UK; Leceia Gordon-Mackenzie, Prostate Cancer UK; Barbara Burbidge; Barbara James; Deborah Haworth, Cancer Research UK

Agenda:

*1. Croeso a chyflwyniadau - Julie Morgan AC*

*2. Addysg a Gwella Iechyd Cymru - Stephen Griffiths a Pushpinder Mangat*

Rhoddodd Stephen a Pushpinder gyflwyniad ar y datblygiadau diweddaraf o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC) yn eu rolau fel cyfarwyddwr nyrsio a chyfarwyddwr meddygol yn y drefn honno. Yn dilyn Adolygiad Evans 2015 ac Adolygiad Williams 2016, sefydlwyd AGIC ym mis Hydref 2018 i ddod â chyrff gweithlu iechyd presennol yng Nghymru ynghyd i ddarparu cynllunio gweithlu strategol a chynaliadwy.

Tynnwyd sylw at yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys gweithredu *Cymru Iachach* a chynlluniau tymor canolig integredig parhaus y byrddau iechyd, yn ogystal â delio â phwysau cyfredol, gan gynnwys canser.

Mae meysydd ffocws ar gyfer AGIC o ran y gweithlu meddygol yn cynnwys gofal sylfaenol, denu mwy o staff i ofal eilaidd, recriwtio rhyngwladol, a datblygu rolau eraill i gynorthwyo staff presennol. Ar gyfer y gweithlu anfeddygol, bu gwelliannau mewn lleoedd hyfforddi ar gyfer nyrsys, radiograffwyr a sonograffwyr. Mae gwaith ar y gweill hefyd wrth ddatblygu cymysgeddau o sgiliau ac ymarfer uwch.

*3. Trafodaeth*

*Gadawodd Julie Morgan AC y cyfarfod. Cadeiriodd Caroline Jones AC weddill y cyfarfod.

Gofynnwyd cwestiynau eraill am y pynciau canlynol:

- Recriwtio a chadw staff y GIG, gan gynnwys gweithio hyblyg ar gyfer y rhai sy'n ymddeol yn fuan
- Sut i gadw hyfforddeion yng Nghymru ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant
- Sut i atal gorflino ymysg gweithlu'r GIG
- P'un a fydd gan Gymru darged gweithlu tebyg i'r hyn a gyflwynwyd gan Health Education England yn ddiweddar

- Beth yw’r ffordd orau i annog pobl i adleoli i Gymru, gan gynnwys gogledd a gorllewin Cymru

Mewn ymateb, eglurodd Stephen a Pushpinder fod Cymru'n lle deniadol i staff y GIG fyw, hyfforddi a gweithio. Roedd yna fwy y gellid ei wneud o ran gweithio hyblyg i'w wneud yn gyson ar draws y bwrdd. At hynny, gall data'r gweithlu fod yn anghyson ac mae angen olrhain rhai proffesiynau yn well.

O ran recriwtio a chadw staff, mae angen hyfforddiant a llwybrau dilyniant gyrfa cliriach fel bod staff yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei gyflawni o fewn eu rôl. Yn olaf, mae angen mynd i'r afael ag amodau gwaith, gan ei bod yn hysbys bod yr amgylchedd llawn straen yn eu gyrru rhai, fel nyrsys newydd gymhwyso, allan o'r GIG.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.30.**